# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Awst 2023 – Cyfrol 8- Rhifyn 11

## Diolch



Yn y bore coffi a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, 29 Gorffennaf, manteisiodd pwyllgor Neuadd y Pentre ar y cyfle i ddiolch i Wyn Wilson am ei gwaith gwirfoddol fel clerc hurio'r neuadd ers ugain mlynedd.

Cyflwynodd Gwen Butler, cadeirydd y pwyllgor, flodau a thocyn rhodd i Wyn.

Roedd y bore coffi'n codi arian tuag at Ambiwlans St Ioan a chodwyd £330 tuag at yr achos ardderchog hwn. Mae Gwen yn diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.

Y cyfanswm sydd wedi'i godi at elusennau amrywiol trwy ddigwyddiadau yn Llandyrnog a'r cyffiniau ers mis Awst 2022 yw £12,394. Mae hwn yn cynnwys £2170 a godwyd tuag at Hosbis St Cyndeyrn yn unig.

## Hwyl fawr, Syr



Pob dymuniad da i Richard Monteiro, pennaeth Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor yn ei swydd newydd, sef pennaeth Ysgol Pen y Bryn, Bae Colwyn. Dyma ei eiriau yn ei gyfraniad olaf at gylchlythyr wythnosol Ysgol Bryn Clwyd:

*Gwyliais y sioe diwedd tymor nos Fercher gydag emosiynau cymysg, gan wybod mai hon fyddai'r olaf i mi, ac fel bob amser, hoffwn ddiolch i'r staff am weithio mor galed y tu ôl i'r llenni i gefnogi'r plant i gynnal sioe mor wych.*

*Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda thîm mor ymroddedig. Dechreuais yn bennaeth ar Ysgol Bryn Clwyd yn 2015 ac ers y diwrnod cyntaf, roedd yr angerdd a'r ymrwymiad a ddangosodd pob aelod o staff yn amlwg ac roedd hefyd yn heintus i bawb sydd wedi ymuno ers hynny.*

*Bydd yn chwith iawn i mi heb y cyfeillgarwch hwn ond byddaf yn gadael yn hapus gan wybod na fydd hyn byth yn newid, ac yn y pen draw, mai dyma sydd wedi creu amgylchedd dysgu mor hapus i'r plant, ac a fydd yn parhau i'w gynnal.*

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais*, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

***Pob dymuniad*** da i Eva Langford-Jones yn dilyn triniaeth ysbyty; Charlie Jones, Maes Clwyd fydd yn mynd i weithio ar fferm yn ymyl Glasgow; Elaine ac Earle Wright ar ddathlu eu Priodas Aur; a gwellhad buan i David Weyman yn dilyn damwain gas.

***Cydymdeimlwn*** â theulu'r diweddar Annie Williams Fforddlas Isa; â theulu'r diweddar Graham Jackson, Cerrigllwydion Lodge, ac ag un o ddarllenwyr ffyddlon Llais Llandyrnog, Mrs Elspeth Brierley o Ruthin, ar farwolaeth ei gŵr, Jim.

***Ymgynghorydd Tir Âr***
Rwy'n falch iawn o fod wedi cael fy newis gan feirniaid y *Farmers Weekly* i dri olaf '*Ymgynghorydd Tir Âr y Farmers Weekly 2023'*. Bydd canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn noson wobrwyo *Farmers Weekly* yn Llundain ar 5 Hydref.
*Merfyn Parry*

**Diolch** i bawb am gefnogi'r bore coffi tuag at y Lleng Brydeiniog ym Mhlas Ashpool. Codwyd y swm ardderchog o £700.


DBP
Denbigh Building Plastics
SUPPLIERS & INSTALLERS
U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Mawrth | $8^{fed}$ | Clwb Llyfrau 10–11am |
| Mercher | $16^{eg}$ | Tuesday Club 2–3pm |
| Mawrth | $22^{ain}$ | Clwb Llyfrau 10–11am |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | $5^{ed}$ | Grŵp crefftau |
| Mercher | $9^{fed}$ | Cyfarfod pwyllgor y sioe flodau, 7pm |
| Sul | $13^{eg}$ | Parti pen-blwydd 10.30–13.30 |
| Llun | $28^{ain}$ | Y sioe flodau a chynnyrch |

**SYLWCH AR Y NEWIDIADAU I DREFN HURIO'R NEUADD: I hurio'r neudd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**

## HWB LLANDYRNOG
## PAFILIWN CAE NANT –
### DYDDIADAU AWST I'CH DYDDIADURON

Newyddion da gan y Tîm Hwb – rydym ni wedi derbyn arian ychwanegol oddi wrth Gronfa Ynysigrwydd Cymdeithasol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Felly, byddwn yn agor yr Hwb ddwywaith ym mis Awst, gan ein bod wedi gwresogi'r pafiliwn erbyn hyn, a gallwn barhau yn ddiweddarach yn flwyddyn! Bydd yr Hwb ar agor **ddydd Mercher, 9 a 23 Awst.**

**Gwasanaethau mis Awst yn Eglwys St Tyrnog**

| | | |
|---|---|---|
| $6^{ed}$ | 11.15 | Cymun bendigaid |
| $13^{eg}$ | 11.15 | Boreol weddi |
| $20^{fed}$ | 11.15 | Boreol weddi |
| $27^{ain}$ | 11.15 | Cymun bendigaid |

# Sioe Flodau Llandyrnog 2023

Bydd sioe eleni yn neuadd y pentref ddydd Llun, 28 Awst am 2 o'r gloch. Mae pwyllgor y sioe wedi penderfynu defnyddio pabell fawr eto eleni, ar ôl ei defnyddio am y tro cyntaf y llynedd. Bydd blodau, ffrwythau a llysiau yn y babell, a chynnyrch cartref, crefftau a chystadlaethau'r plant yn y neuadd. Rydyn ni'n ceisio cynnwys amrywiaeth eang o ddosbarthiadau i annog cymaint o bobl ag sy'n bosib i gystadlu. Yn enwedig, mae rhaglen eleni yn cynnwys rhestr hollol newydd o ddosbarthiadau i bobl ifanc, o dan 7 oed hyd at 18 oed (edrychwch ar dudalen 27 yn y rhaglen).

Bydd stiwardiaid o gwmpas y neuadd yn helpu arddangoswyr ac ymwelwyr ar y diwrnod. Mae'r pwyllgor wedi ceisio dosbarthu rhestr testunau i bob cartref yn y pentre, ond os ydyn ni wedi methu ambell le, mae copïau ar gael yn swyddfa'r post neu gan yr Ysgrifennydd, Roger Warner, yn Cross Keys. Rhaid rhoi'r ffurflenni cystadlu yn y bocs yn swyddfa'r post erbyn canol dydd, dydd Iau, 24 Awst neu erbyn 6 o'r gloch fin nos drwy e-bost. Anfonwch e-bost at llandyrnogshow@gmail.com. i gael copïau electronig o'r rhestr testunau a'r ffurflenni ymgeisio.

***Roger Warner, Ysgrifennydd***

**Dychwelwch dlysau'r sioe cyn gynted â phosib at yr ysgrifennydd yn Cross Keys, os gwelwch yn dda, neu anfonwch e-bost ato ar y cyfeiriad uchod i drefnu eu nôl.**

Dymuna Rich, Bryn a theulu'r ddiweddar Gwen Davies, Rhuthun, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad â nhw yn eu profedigaeth ddiweddar. Diolch hefyd am y cyfraniadau hael er cof am Gwen tuag at Gymdeithas Cyfeillion Ysbyty Rhuthun a Baby Basics Dyffryn Clwyd.

# Llan Llanast

Yn ein cyfarfod fis Gorffennaf, cawsom stori'r Iesu am y wraig oedd wedi colli darn arian gwerthfawr, a pha mor galed bu'n chwilio amdano nes ei gael. Y gred oedd y gallai'r darn arian fod wedi dod o'i phenwisg briodasol, a'i fod felly'n werthfawr iawn yn ei golwg. Yna, â'r Iesu ymlaen i ddweud – yn union fel roedd y darn arian yn werthfawr i'r wraig, rydym ni hefyd yn werthfawr yng ngolwg Duw. Bydd Duw bob amser yn dod o hyd i ni os byddwn ni unrhyw adeg yn colli'r ffordd. Gwnaethom ni lawer o weithgareddau gydag arian – hyd yn oed coeden arian – ac mae'n siŵr y bydde pawb ohonom ni'n hoffi un o'r rhain! Gwnaethom ni hefyd benwisgoedd wedi eu haddurno â darnau arian.




Ni fydd Llan Llanast ym mis Awst, ond byddwn yn ôl 10fed Medi. Croeso i chi ymuno â ni yn yr hwyl!

# Capel y Dyffryn

***Cydymdeimlwn*** â theulu Rhydonnen o golli Wyn Jones, Tŷ Brith a theulu Plas Llangwyfan o golli Clwyd Hughes.

**Gwasanaeth mis Awst**

27ain 11.00 Parch. Alun Moreton Thomas

**Oriau agor Swyddfa'r Post**

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**

# Bryn yn yr awyr eto!

Fis yma, dwi am rannu fy atgofion am ddiwrnod arbennig iawn gawson ni Ddydd Sadwrn 10fed Mehefin. Roedd y trip yn gyfuniad o anrheg Nadolig a Phen Blwydd oddi wrth Anwen – trip hofrennydd o gwmpas Ynys Môn. Wel, roeddwn i ar ben fy nigon – trît unwaith mewn oes!

Gan fy mod wedi cerdded llwybr yr arfordir i gyd o'r blaen, roeddwn i'n edrych 'mlaen at gael ei weld heb chwysu o gwbwl a chael canolbwyntio ar y golygfeydd gydag enaid hoff cytûn. Pan fyddwch chi'n cerdded eich hun, mae 'na duedd i ganolbwyntio ar y man cychwyn, diwedd y daith, y tywydd, y traed, dod o hyd i'r llwybr iawn – yn wir, does dim cyfle i ymlacio!

Ar ôl cyrraedd Maes Awyr Caernarfon, cyflwynwyd ni i Dan y peilot – roedden ni wedi cyfarfod o'r blaen, ac yn gwybod y bydden ni mewn dwylo diogel. Ar ôl gwneud yn siŵr bod y drysau ar glo, a'r *intercom* yn gweithio, roedden ni i fyny. Byddwn i'n argymell y dull yma o deithio i unrhyw un – a bod gynnoch beilot da wrth gwrs!

O fewn munudau roedden ni uwchben Ynys Llanddwyn gyda'i thraeth a'i phenrhyn hyfryd – ac wrth gwrs Eglwys Santes Dwynwen, ein Santes Ffolant Gymreig ni. Mae Dydd Santes Dwynwen ar 25ain Ionawr bob blwyddyn. Gan fy mod yn Gelt go iawn, rydw i'n dathlu'r un



Cymreig wrth gwrs – mae rhosod yn llawer iawn rhatach yr adeg honno hefyd!

Pe bydden ni wedi hedfan dros y tŷ nesa yn 2011, mi fydden ni'n siŵr o fod wedi cael ein saethu i lawr – roedden ni'n hedfan dros Home Farm, Bodorgan, lle'r oedd William a Kate yn aros yn ystod ei waith o yn *RAF* Fali. Mae'n weddol anghysbell, â thraeth hollol breifat. Stad 14,000 acer ydi Stad Bodorgan, sy'n bodoli ers 1599, ac yn dal i berthyn i'r un teulu. Mae'n gartref i Syr George Meyrick a'i wraig y Foneddiges Candida Tapps Gervis Meyrick – 'sgwn i sut mae Syr George yn cyfarch ei wraig?

Nesa dros drac rasio Tŷ Croes, fy ffefryn – ond dim rasio yma heddiw. Roedd Dan yn 'nabod Ynys Môn fel cefn ei law. Ynys Cwyfan – yr eglwys yn y môr a Chraig y Môr, Bae Trearddur, lle ffilmiwyd Cyfres ITV *The Safe House* yn 2016. Yn rhyfedd, roeddwn i'n ffan mawr o *The Safe House*, a gweld y ceir heddlu'n gwibio'n gyflym ar draws y rhostiroedd a'r tir anial i gyrraedd y Safe House â thystion roedd angen eu gwarchod – wnes i 'rioed feddwl mai yn Sir Fôn roedd o! Ond roedd y rhan fwyaf o'r ffilmio wedi digwydd yn yr Alban, a dim ond ffilmio'r ceir yn cyrraedd Sir Fôn oedden nhw – a gofalu 'run pryd nad oedd y môr i'w weld yn y siot! Wel dyma fi wedi fy siomi!

Yna hedfan dros Fynydd Caergybi, pwynt uchaf Ynys Môn. Byddwn yn eich annog i fynd i ymweld â Pharc Gwledig Morglawdd Caergybi gyda'i gaffi a'i gyfleusterau. Tra byddwch chi yno, edrychwch i lawr ar Forglawdd Caergybi – lle mae Anwen a minnau wedi cerdded yn y gorffennol. Dyma'r morglawdd hiraf yn y Deyrnas Unedig, 1.7 milltir o hyd. Af i ddim i fanylion yma, ond byddwn i'n eich annog i ddarllen am yr orchest beirianyddol Fictorianaidd. Cafodd pob carreg ei chloddio o fynydd Caergybi, ei thrin â llaw mewn sied, a'i gosod ar wagen fflat ar drac oedd yn mynd at y safle. Byddai'r deifwyr oes Fictoria yn eu helmedau a'u siwtiau plymio yn eu derbyn a'u gosod yn eu lle o dan y dŵr – anhygoel. Mae'n

# Bryn yn yr awyr eto: parhad



dal i sefyll, ac yn agored i gerddwyr. Mae Stenna wedi cael gafael ar grant loteri o £12 miliwn i'w helpu i ailwampio'r strwythur gwych yma.

Ta waeth, ymlaen â ni – 'chydig mewn i'r tir wrth fynd dros Fynydd Parys. Yn y 18fed ganrif, dyma gloddfa gopr fwya'r byd, ac mae olion y gwaith mwyn wedi gadael tirwedd debyg iawn i'r lleuad! Y copr hwn oedd yn gorchuddio cyrff llongau rhyfel Traffalgar yn 1805. Ryden ni wedi bod yma o'r blaen, ond yn gobeithio dod 'nôl ryw ddydd i fwynhau'r golygfeydd trawiadol o'r top – does dim tâl mynediad!

Yn fuan iawn, roeddem ni uwchben hen safle 200 erw Purfa Olew Rhosgoch, oedd yn eiddo i Shell unwaith – mae sylfeini crwn y tanciau i'w gweld yn glir o'r awyr. Cafodd opsiwn posibl ei gynnig gan y perchnogion presennol, *Conygar*, sef adeiladu pentre' ar gyfer y cannoedd o weithwyr y byddai eu hangen i adeiladu Wylfa Newydd. Ond pan wnaeth *Hitachi* dynnu allan, diflannodd y syniad yna. Erbyn hyn maen nhw'n meddwl defnyddio'r lle fel safle i egni adnewyddol o fath – paneli solar 'falle?

Ac wrth i ni drafod hyn, roedden ni'n digwydd hedfan dros brosiect solar Porth Waen. Dyma fferm solar 190 erw a gomisiynwyd eleni – mae'n gallu cyflenwi trydan i hyd at 9,500 o dai – golygfa drawiadol iawn o'r awyr!

Yna'n ôl at yr arfordir a thros Foelfre – oedd yn edrych mor hardd y diwrnod hwnnw. Ond collwyd llawer o fywydau ar hyd yr arfordir hwn – fel y nodir ar nifer o hysbysfyrddau a welir ar hyd y llwybr. Yr un mwya' nodedig oedd y *Royal Charter* oedd yn dychwelyd adref o Melbourne i Lerpwl yn Hydref 1859 gyda 371 o deithwyr a chriw o 112. Roedd llawer o'r teithwyr yn fwynwyr aur ac wedi taro ar gyfoeth yn Awstralia – bron â chyrraedd adre. Roedd ganddyn nhw glapiau o aur yn eu pocedi, ac roedd y *Royal Charter* hefyd yn cario llwyth o aur. Roedd y 33 a oroesodd yn dweud bod y capten wedi anwybyddu cyngor i dynnu mewn i harbwr Caergybi am gysgod. Penderfynodd ddal i fynd ar ei siwrne!

Tynnwyd ein sylw wedyn gan Dan at yr olygfa fwyaf godidog – golygfa i fyny llwybr serth Bwlch Llanberis, a'r ddau lyn, Padarn a Peris yn glir fel grisial. Wel dyna i chi olygfa na fydd yr un ohonom yn ei anghofio – a Chastell Dolbadarn yn sefyll yn gadarn a balch rhyngddyn nhw wrth gwrs.

Dros dref Biwmares, ac unwaith eto golygfa odidog o'r Afon Menai o'r awyr a Phwll Ceris yn edrych yn fwy peryglus nag erioed. Does ryfedd bod Nelson wedi hyfforddi ei griw dethol yma. Mae'n debyg iddo ddweud unwaith, '*If they can sail The Swellies, they can sail anywhere in the world',* a galla i goelio hynny o'i weld o'r awyr – roedd y creigiau'n edrych yn fygythiol iawn!



Toc, roedden ni'n ôl yn Ninas Dinlle, a dyma Dan, chwarae teg iddo fo, yn ein gollwng yn esmwyth yn ôl ar y tarmac. Dyna be 'dw i'n ei alw'n ddiwrnod allan go iawn!

*Bryn Davies*

# Dod i adnabod ... Anwen Davies

**Beth yw dy hanes di?**

Ces i fy ngeni (yn llythrennol!) a fy magu yn Ystalyfera, ryw 12 milltir o Abertawe. Dyddiau ysgol braf yn ysgolion cynradd ac uwchradd y pentre, wedyn codi pac i fynd i Brifysgol Bangor. A dyna ddweud ta-ta wrth Gwmtawe, fwy neu lai.

Fy swydd gyntaf oedd ysgrifenyddes i ddau ohebydd teledu'r BBC ym Mangor, ac wedyn ces waith yn stiwdio deledu HTV yn yr Wyddgrug. Yn sgil y gwaith hwn, cefais deithio i sawl gwlad. Yn 1982, bues i ar daith am chwe wythnos o gwmpas Ewrop yn ffilmio rhaglenni gydag Elinor Jones yn eu cyflwyno. Wedyn yn 1987 cael mynd i Bangkok, Seland Newydd ac Awstralia am saith wythnos i ffilmio rhaglenni.




*Gweithio ar ynys y gogledd, Seland Newydd yn 1987*

Ar ôl hyn, daeth cyfnod o fagu teulu, cysodi papurau bro, a chyfieithu i Sir y Fflint ac Ysgol Glan Clwyd.

Tipyn o newid wedyn – cael swydd gyda Chydbwyllgor Addysg Cymru yng Nghaerdydd fel swyddog golygyddol, yn gweithio ar adnoddau ar gyfer arholiadau allanol TGAU a Lefel A. Mwynhau'n fawr ond roedd y daith wythnosol i Gaerdydd yn fy mlino'n fawr, a phan ddaeth y contract dwy flynedd i ben, bu'n rhaid gwrthod y cynnig i'w ymestyn.

At y Cyngor Llyfrau wedyn yn gweithio gartref fel swyddog golygyddol ar gyfresi llyfrau 'Darllen yn Well' yn benodol ac ambell lyfr arall.

**Beth yw dy gynlluniau di ar gyfer y dyfodol?**

Erbyn hyn rwy wedi rhoi'r gorau i weithio – dwi ddim am ddefnyddio'r gair ymddeol, mae hynny'n rhy derfynol. Efallai caf i gyfle i olygu



ambell lyfr nawr ac yn y man. Rhiannon fach, fy wyres 16 mis oed, sy'n cael blaenoriaeth nawr, ac rwy'n gofalu amdani dridiau'r wythnos. Mae hynny, a chysodi'r *Llais* bron bob mis, yn hen ddigon am y tro. A helpu gydag ambell bore coffi, wrth gwrs. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer boreau coffi yn Neuadd y pentref yn llafurus iawn, ond mae gweld pawb yn mwynhau sgwrsio a chymdeithasu, yn gwneud y cyfan yn werth-chweil. Ac wrth gwrs, rhaid canmol haelioni pawb – fydda i byth yn peidio â rhyfeddu at hyn.

**Beth yw dy hoff dri lle?**

Llangwyfan – rwy'n hoff iawn o fynd am dro heibio'r eglwys fach; a Dinbych y Pysgod a'r Mwmbwls – llefydd gwych ar gyfer gwyliau.

**Pwy byddet ti'n hoffi'i wahodd i swper acw, byw neu farw?**

Dim ond unwaith rydyn ni yn yr hen fyd 'ma, a rhaid cael llond bol o chwerthin – felly Tudur Owen, Dave Allen, a'r ddau Ronnie. Byddai'n hwyl cael Victor Borge wrth y piano hefyd.

**Beth sy'n gwneud i ti deimlo'n hapus neu'n flin?**

Yn hapus: bod yng nghwmni fy nheulu – Bryn; Lisa; Manon, James a Rhiannon, ac Ifan; Dad a Glyn, fy mrawd. Yn flin: gyrwyr yn peidio â dangos diolch pan rydych wedi rhoi lle iddyn nhw fynd heibio i chi (ac ambell beth arall!).

# Llysgenhadon twristiaeth

Mae Sir y Fflint a Wrecsam wedi lansio eu *Cynlluniau Llysgenhadon* eu hunain yn ddiweddar sy'n golygu y gallwch ddysgu mwy am Ogledd Cymru gan fod pob un o'r 6 awdurdod lleol a Pharc Cenedlaethol Eryri bellach yn fyw. Mae *Cynllun Llysgenhadon Cymru* arobryn yn rhoi hyfforddiant a gwybodaeth i bobl am rinweddau arbennig ardaloedd yng Nghymru. ***Sir Ddinbych*** oedd y cyntaf i lansio cwrs ar-lein o'i fath yng Nghymru. Mae llysgenhadon yn cael eu hannog i gofrestru ar gyfer cyrsiau lluosog i ymestyn eu gwybodaeth am Gymru a bod yn rhan o gymuned ehangach.

Mae'n ffordd wych o ddyfnhau eich gwerthfawrogiad o le a dysgu mwy am ei nodweddion unigryw. Mae'n rhad ac am ddim ac yn agored i bawb. Cynigir cyfres o fodiwlau ar-lein ar amrywiaeth o themâu. Mae hyn yn cynnwys y Gymraeg, cymunedau, diwylliant, hanes, tirluniau, twristiaeth gynaliadwy, beicio a cherdded. Mae tair lefel – efydd, arian ac aur, yn dibynnu ar nifer y modiwlau a gwblheir. Anfonir gwobrau, yn cynnwys tystysgrifau a bathodynnau i bawb sy'n cwblhau'r lefelau. Am ragor o wybodaeth am ***Gynllun Llysgenhadon Twristiaeth Sir Ddinbych****, cysylltwch â* twristiaeth@sirddinbych.gov.uk.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Grŵp Gefeillio Dinbych a Bierbertal

Yn ddiweddar teithiodd dau ddwsin o'n ffrindiau o Biebertal i ymweld â nifer o deuluoedd yn Nyffryn Clwyd i adnewyddu ein cyfeillgarwch ac ymweld â lleoedd o ddiddordeb ar draws Ogledd Cymru.

Mae Mary Mars Lloyd, Llys y Bryn a Rod a Maged Williams, Rhiwbebyll wedi bod yn aelodau o'r gymdeithas yma ers blynyddoedd ac yn cael pleser mawr o groesawu'r Almaenwyr bob yn ail flwyddyn. Mae'n rhaid dweud bod y croeso rydym yn ei dderbyn yn yr Almaen yn gynnes iawn – methu gwneud digon drosom.

Mae yna ragor o Almaenwyr sydd yn awyddus i ymuno a'r grŵp gefeillio ond mae angen rhagor o aelodau yn Nyffryn Clwyd. Felly beth amdani?

*Rod Williams*



*Rhan o'r criw yn cerdded rhan o lwybr y pererinion yn Llansannan*



*Criw Dinbych yn ffarwelio a'r Almaenwyr*

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**



# Hanesion Hazel

Er ei bod yn adeg y gwyliau, mae'r ardd yn dal yn lle prysur. Mae popeth yn tyfu a gall yr ardd edrych braidd allan o reolaeth – wel mae fy un i beth bynnag! Mae'r storm o fellt a tharanau gawsom ni yn yr haf wedi fflatio llawer o flodau yn y lle bywyd gwyllt, felly rydw i wedi dewis be' i chwynnu – gadael unrhyw beth o ddiddordeb, a chael gwared o'r talan poethion, dail tafol a phethau eraill oedd yn edrych fel chwyn.

Mae cynlluniau gorau pobol yn newid! Ydech chi'n cofio i mi benderfynu peidio plannu tatws y llynedd; ym, wel, mae'r cynllun wedi newid! Yn y gwanwyn, mi fues i'n plannu betys gaeaf yn y prif wely llysiau – handi i fwydo fy ieir yn ystod y gaeaf, fel rhyw drît bach. Roedden nhw'n tyfu'n braf er y tywydd poeth, sych, ac roeddwn ni wrth fy modd. Ta waeth, mi ddoth nifer o ieir drygionus o hyd i dwll yn y ffens rhyw bnawn, a dyma nhw'n bwyta'r planhigion melys mewn dim o amser!

Mae'r gwerthwyr tatws yn anfon y tiwbyrs fis Gorffennaf ac Awst, ac mi rydw i newydd blannu fy rhai i – *Charlotte a Maris Peer*. Maen nhw wedi bod mewn lle storio oer, felly does dim rhaid eu hannog i ddechre blaguro, ond eu plannu'n syth bin. Wrth i chi eu plannu rŵan, mi fyddan nhw wedi dod cyn iddi ddechre rhewi – wel, dyna'r cynllun. Dw i wedi eu plannu ar ochr orllewinol yr ardd lysiau, yn wyneb yr haul.

Daw'r cynhaeaf o'r tŷ gwydr ym mis Awst – y tomatos, tsilis, y ciwcymbyrs. Ar ôl yr holl dywydd poeth a sych gawson ni, dydi'r tomatos sy gen i ddim wedi cynhyrchu llawer o gnwd, a dwi'n amau na fydd na rai digon da i gystadlu yn y Sioe ddiwedd y mis. Rydw i bob amser yn trio dod â rhywbeth efo fi, ac os bydd 'y merched' mewn hwylie, falle y bydd yr wyau digon da. Eleni, mae gen i sioe o hocys y gerddi hyfryd allan rŵan – hen hadau gan ffrind – sy'n dangos na ddylech chi byth daflu hadau! Mi fyddan nhw wedi hen orffen cyn y sioe – bechod!



Ydech chi'n meddwl bod 'na fwy o forgrug o gwmpas yr haf 'ma? Mae 'na rai o dan y slabiau concrit yn y tŷ gwydr hyd yn oed. Sylwi wnes i nad oedd y cŵn yn gorwedd yn y tŷ gwydr fel arfer, ac mi weles i lwyth o forgrug hedegog, a gweld y llwybr ar draws yr iard lle roedden nhw'n mynd mewn gorymdaith. Pob un yn mynd ar ôl y llall mewn llinell siâp neidr o un pen i'r pen arall – mae'n siŵr bod hyn fel croesi'r anialwch iddyn nhw! Weithiau, os bydda i wedi dod o hyd i nyth, mi fyddai i'n rhoi tun bisgedi dros y twll yn y bore, ac, wrth i'r diwrnod gynhesu, mi fydd y morgrug wedi cario'u hwyau i fyny i'r tun. Yn hwyrach yn y dydd, mi fyddai i'n gwthio darn o gerdyn o dan y tun, achos bydd yn llawn o wyau – ac yn drît i adar a'r hen ieir 'cw. Amser blasus i bawb – amser prysur ond digon o drîts iym, iym, iym!!

*Hazel*

# Tuesday Club

Ym mis Mehefin, cafodd aelodau'r clwb eu cinio canol haf yn y Drovers Arms, Rhewl. Gofalodd Sam a Sion yn ardderchog amdanon ni a mwynhaodd pawb ei fwyd.

Yng nghyfarfod mis Gorffennaf, daeth y plismyn cymunedol David Jones i sôn am ddiogelu'r cartref.




Roedd ganddyn nhw becynnau diogelu'r cartref gan Heddlu Gogledd Cymru i'w dosbarthu a oedd yn cynnwys taflen â chynghorion ar gyfer diogelu'r cartref; sticer i'w arddangos y tu allan i'r tŷ; manylion www.immobilise.com, gwefan lle gallwch chi gofrestru'r eiddo am ddim, e.e. gliniaduron; a phen uwchfioled i ysgrifennu'ch cod post ar eiddo gwerthfawr.

Y prif gynghorion yw:

- Gofalwch fod drysau wedi cloi a ffenestri ar gau cyn gadael y tŷ.
- Cadwch y drws ffrynt a'r drws cefn ar glo, hyd yn oed pan fyddwch chi yn y tŷ, ac yn arbennig dros nos.
- Peidiwch â gadael eitemau gwerthfawr yn y golwg, nag allweddi car ger blwch llythyrau lle gall lleidr estyn atyn nhw a'u dwyn.
- Cadwch gatiau gardd a drysau ochr ar glo. Peidiwch â gadael dim byd allan y gallai lleidr ei ddefnyddio i dorri i mewn i'ch cartref.
- Peidiwch â gadael biniau olwynion lle gallai rhywun eu defnyddio i ddringo dros wal neu ffens.
- Marciwch eich eiddo gyda phen uwchfioled.
- Gofalwch fod eich cartref yn edrych fel petai rhywun ynddo. Rhowch oleuadau a radio ar amserydd.
- Ystyriwch osod larwm lladron a goleuadau diogelwch allanol.
- Byddwch yn wyliadwrus; riportiwch unrhyw weithgarwch anarferol, pobl neu gerbydau amheus yn eich ardal.

Diolchwyd i David a Lee am gyflwyniad diddorol iawn a gweinwyd lluniaeth ysgafn. Yn anffodus, clywsom nad yw iechyd Joyce Catteroll yn ddigon da iddi ddod i gyfarfodydd o hyn ymlaen. Hefyd anfonwyd ein cofion at Gwilym a Glenys. Tynnwyd y raffl a dywedwyd wrth yr aelodau y bydd yr Ystafelloedd Coco ar agor ddydd Mercher, 16 Awst am baned a sgwrs. Croeso i bawb.

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Sefydliad y Merched

Cyfarfu'r sefydliad 04/07/2023 yn yr Ystafelloedd Coco. Cawsom glywed bod y stondin gacennau yn y Sioe Geffylau wedi gwneud elw o £68, a bod yr aelodau a aeth ar drip i Fodnant wedi cael amser ardderchog.

I'r *Iron Works Centre* yn ymyl Croesoswallt yr aethon ni ar ein taith anffurfiol nesa.



Daeth Sue Wright, swyddog cyswllt uwch '*Book for You*', i siarad am fod yn ffrind dementia, ac am y llyfrau atgofion maen nhw'n creu ar gyfer unigolion a grwpiau trwy ddefnyddio lluniau, fideos a recordiadau llais. Edrychom ni ar rai ar-lein, ac roedden nhw'n wych e.e. yr un am Reilffordd Yr Wyddgrug–Dinbych a ysgogodd nifer o atgofion!

Buom yn chwarae gêm a dysgu bod dros gant o wahanol fathau o ddementia yn bod, a'i fod yn afiechyd yr ymennydd sy ddim yn rhan naturiol o'r broses heneiddio. Gall gynnwys materion synhwyraidd a medru gosod pethau mewn trefn, yn ogystal â newidiadau mewn personoliaeth dros amser. Cymharodd Sue yr ymennydd naturiol i silff lyfrau yn *Ikea* sy'n simsan – bod llyfrau ar y top yn disgyn gyntaf – felly bod atgofion sy wedi eu sefydlu hiraf ar silff yn is i lawr. Mae gennym ni hefyd silff lyfrau teimladau, sydd yn fwy cadarn, ac felly mae emosiynau a theimladau'n gryf hyd yn oed gyda dementia. Gwnaethom ni gyd hel atgofion am y fferins pan oedden ni'n blant, a phawb yn chwerthin a dwyn atgofion hyfryd – mae hyn yn bwysig i bobl sydd â dementia. Dydyn nhw ddim yn dweud dioddefwyr bellach am fod hyn yn ystyr negyddol

Gallwch gysylltu â llinell gymorth dementia sydd â nyrsys sy'n arbenigo yn yr afiechyd, o 9am hyd 9pm ar 08008886675, neu drwy helpline@dementiauk.org.

Gellir gweld enghreifftiau o *Book for You* ar-lein yn *bookforyou.co.uk* – mae'r ymchwil i mewn i bŵer atgof yn cael ei gefnogi gan yr Athro Bob Woods, canolfan datblygu gwasanaethau dementia Prifysgol Bangor.

Y siaradwr yn ein cyfarfod 5 Medi fydd Graham Jones, *Woody's Lodge* – croeso i chi ddod draw ac ymuno â ni.

*Jane Borthwick*

# Y Gild Treffoil

Mae 80 mlynedd ers cychwyn y Gild Treffoil, ac fe gafwyd te parti a chacen ddathlu i nodi'r achlysur.



*Ruth Griffith yn torri cacen y dathlu*

Cawsom hefyd sesiwn grefftau gydag Ann Lloyd a gwneud pob math o bethau. Ein cyfarfod nesaf fydd te parti yn y *Lodge,* Llanrhaeadr.

*Ruth Griffith*

# Neges gan yr Offeiriad

Mae Ardal Genhadu Dinbych, sy'n cynnwys un eglwys ar ddeg ac un eglwys bererindod mewn dalgylch o 5.5 milltir o gwmpas tref farchnad Dinbych, yn ymroi i ddathlu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant sydd wedi ei wau ynddi mor gywrain dros flynyddoedd lawer. Mae'n bleser gennym roi gwybod i chi fod gennym bwyllgor sy'n cyfarfod bob ryw chwe wythnos i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau a digwyddiadau sy'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg ac, wrth gwrs, rhai dwyieithog hefyd. Gwyliwch am fanylion digwyddiad i ddathlu Gŵyl Ddewi rydym yn ei gynllunio ar gyfer prynhawn dydd Sul, 3 Mawrth y flwyddyn nesaf, er enghraifft, a fydd yn boblogaidd.

Roedd yn wych cael croesawu Catrin Finch i Eglwys Llanefydd ar Sul y Mamau ym mis Mawrth a hefyd Dafydd Iwan tua'r un pryd yn neuadd yr eglwys Henllan ar wahoddiad aelodau Capel Henllan.

Rydym yn falch iawn fod gennym berthynas dda â holl gapeli'r Ardal Genhadu. Mae gwylio'r haul yn codi wrth ganu mawl i Dduw, gweddïo yn nerth yr Ysbryd a chydnabod hyfrydwch y berthynas â'r Iesu ddau fore'r Pasg yn olynol gyda rhai o'r capeli ac eglwysi eraill yng Nghastell Dinbych, wedi bod yn llawenydd o'r mwyaf.

Roedd yn wych hefyd cael croesawu *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* i eglwys y Santes Fair, Dinbych ar gyfer rhaglen arbennig y Nadolig diwethaf. Yn y rhaglen dangoswyd lluniau drôn da o'r ffynnon sanctaidd a gafodd ei hadnewyddu'n ddiweddar ar ffurf baddon Rhufeinig. Roedd yr eitem gan Gwyn Matthews am y ffenestr Jesse yn eglwys Sant Dyfnog, Llanrhaeadr, a'r diddordeb byd-eang yn yr eglwys, a lluniau'r ffynnon, yn golygu ein bod wedi bod yn fwy prysur o lawer nag arfer. Pan mae hynny'n bosibl byddwn yn trefnu teithiau/amser gweddi i nifer o bererinion, yn unigolion a grwpiau sydd â diddordeb yn yr eglwys.

Mae **Llais Llandyrnog** bob amser yn gyfan gwbl ddwyieithog, mae'r tîm yn gweithio'n galed bob mis i sicrhau hynny. Rydym yn defnyddio'r Gymraeg yn ein cyfryngau cymdeithasol yn aml ac mae ein hoffeiriaid yn arwain gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rheolaidd yn nifer o'r ysgolion yn yr ardal. Mae'n bwysig i ni fod yr iaith a'r diwylliant Gymraeg yn cael eu dathlu ac yn cael dylanwad ar yr hyn a wnawn. Mae nifer dda o Gymry Cymraeg iaith gyntaf yn y cynulleidfaoedd ac mae'r mwyafrif o'n gwasanaethau'n cynnwys o leiaf rhywfaint o Gymraeg.

I orffen neges y mis yma ar destun yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, dyma rai o amseroedd a manylion ein gwasanaethau Cymraeg. Mae gwir groeso i bawb, byddai mor dda eich gweld chi yno:

**Llandyrnog:** Cymun Bendigaid Dwyieithog, Sul cyntaf y mis 11:15 y.b.

**Eglwys y Santes Fair, Dinbych:** Cymun Bendigaid Cymraeg, trydydd Sul y mis 9:30 y.b.

**Yr Eglwys Wen, Dinbych:** Gwasanaeth Dwyieithog, pedwerydd Sul y mis 9:30 y.b.

**Llanefydd:** Cymun Bendigaid Dwyieithog, ail a phedwerydd Sul y mis: 9:30 y.b.

**Tremeirchion:** Cymun Bendigaid Cymraeg, pedwerydd Sul y mis: 11:15 y.b.


GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

01745 815141
07808970364

E-bost: evansautoclinic@btconnect.com

# Arfau cudd?

Mae mwy nag un o gyn-drigolion yr ardal wedi adrodd yr hanes bod gynnau wedi eu claddu ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd yn agos i fyngalo y White House ger croesffordd Llangwyfan. Dros y blynyddoedd rydym wedi bod yn reit awyddus sawl tro i ymchwilio i'r stori yma ymhellach. Yn ddiweddar, cawsom gyfle i wybod y gwir pan ddaeth ffrind draw gyda diddordeb mewn canfod trysorau gyda chanfodydd metel.

Treuliodd fore cyfan yn chwilio'r safle ond yn anffodus ni ddaeth o hyd i unrhyw dystiolaeth fod arfau wedi eu claddu yn ardal honedig. OND dydi'r stori ddim yn gorffen yn y fan yna, oherwydd bod ei ganfodydd ddim ond yn effeithiol yn y chwe modfedd uchaf o bridd. Tybed felly oes yna wirionedd yn y stori? Wel, fe fyddai angen cael Gwyn Howatson a'i Jac Codi Baw i ddarganfod y gwir ffeithiau!

Wedi iddo orffen chwilio am y gynnau, dyma'n ffrind yn dechrau chwilio go iawn am drysorau eraill drwy gerdded i fyny ac i lawr y cae yn ofalus. Ar ddiwedd y chwilio fe alwodd yn y tŷ yn gwenu'n reit fodlon. Mae'r lluniau isod yn dangos ffrwyth ei lafur am y bore. Y darganfyddiad mwyaf diddorol oedd '*Ceiniog Sir Fôn'* yn dyddiedig 1792!

Yn ôl yr hanes roedd cwmni Mwyngloddio Mynydd Parys, Sir Fôn, yn cynhyrchu'r darnau arian yma i dalu'r gweithwyr ac roedd yn arian cyfreithiol cyn belled â Lerpwl a Llundain yr adeg yna. Tybed felly beth oedd hanes Ceiniog Sir Fôn, pwy a'i chollodd hi a sut y daeth hi i orwedd mewn cae bychan yn ardal Llangwyfan?

*Rod Williams*



# Y Gymdeithas Astronomeg

Yn ddiweddar, cafodd Ynys Enlli yr anrhydedd o fod y Noddfa Awyr Dywyll gyntaf yn Ewrop, gan nad oes bron i ddim llygredd golau yn agos i'r ynys. Mae'n un o'r llefydd gorau yn y byd i astudio sêr yn yr awyr, ac mae'n haeddu ei gwobrwyo â'r ddogfen sy'n ardystio'n swyddogol bod ganddi statws arbennig Noddfa Awyr Dywyll Ryngwladol.

Dim ond 16 safle arall yn y byd sy'n cael eu cydnabod felly, a'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (*IDA*) sy'n gallu rhoi'r statws i safle arbennig.

Mae safle Noddfa Awyr Dywyll Ryngwladol fel arfer mewn lleoliad anghysbell gydag ychydig o fygythiadau cyfagos i ansawdd yr awyr yn y nos. Bydd gwarchod adnodd mor werthfawr ag awyr dywyll o les i iechyd pobl, planhigion a bywyd gwyllt fel ei gilydd.

Medd Chris Jones, Cadeirydd Cymdeithas Astronomeg Llandyrnog, "Fis diwetha es i a Diana i Ynys Enlli i weld y Dynodiad Awyr Dywyll. Roedd hi'n daith ardderchog. Dyn ni eisiau mynd yn ôl cyn bo hir. Gobeithio y bydd y statws newydd hwn yn codi proffil yr ynys a sefydlu Cymru fel 'Gwlad yr Awyr Dywyll'.

Rydyn ni'n edrych ymlaen yn awr at weld cawodydd o sêr gwib *Perseidis* ym mis Awst, a'r nosweithiau tywyll ym mis Medi. Mae Gareth Jackson, Hendrerwydd â diddordeb mewn astro-ffotograffiaeth, ac yn rhannu ei luniau hynod o'r sêr a'r awyr â'r grŵp Astronomeg."

*Chris a Diana Jones*



*Y meysydd cyfoethog nifwl o gwmpas Deneb (y seren ddisglair ar y chwith) a Sadr (ar y dde)* (*Trwy ganiatâd Gareth Jackson*)

# Ysgol Bryn Clwyd




*Aeth y rhai sy'n gadael yr ysgol ar daith i'r ganolfan plymio o'r awyr dan do ym Manceinion. Cafodd pawb hedfan ddwy waith ac roedden nhw wrth eu boddau. Pob dymuniad da iddyn nhw eu hysgolion newydd.*



*Aeth yr holl ddisgyblion i lan y môr a mwynhau eu hunain yn fawr.*

# Rysáit

***Cawl tatws melys ac afal***

850g tatws melys – wedi'u torri'n ddarnau go fawr
2 sibolsyn – wedi'u deisio
3 choesyn seleri – wedi'u deisio
3 afal bwyta – wedi'u plicio a'u deisio
1 llwy de cwmin
1 llwy de sinsir mâl
1.2 litr isgell llysiau

Rhowch yr holl gynhwysion mewn sosban, codwch nhw i'r berw a'u mudferwi am ryw 20 munud neu nes bod y tatws yn feddal. Blendiwch y cymysgedd, ychwanegwch halen a phupur at eich dant chi, a thaenwch bersli wedi'i dorri drosto fel garnais.

*Carol Bellis*

Roedd y noson mabolgampau a'r ffair haf yn llwyddiannus ac yn hwyliog iawn. Diolch i Miss Ruth ac i bawb a fu'n helpu gyda'r ffair – codwyd £420.16.

Bydd yr ysgol yn agor eto i'r disgyblion ddydd Llun, 4 Medi. Mae'n dda clywed y bydd Blynyddoedd 3 a 4 yn cael cinio ysgol am ddim o fis Medi ymlaen.




*Uchafbwynt y tymor oedd perfformio sioe* Peter Pan. *Rhaid canmol y staff a'r disgyblion am eu gwaith caled yn paratoi'r sioe – cafodd y gynulleidfa fwynhad arbennig wrth ei gwylio!*

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf Cyngor Cymuned Llandyrnog

- Yn anffodus, nid oedd y plismon cymuned yn bresennol – roedd y Clerc yn mynd i ofyn iddo am y diweddariad ynglŷn â'r ymgais i ladrata a'r lladradau diweddarach yn y pentref.
- Cafwyd diweddariad ar ddatblygiad mesurau diogelwch ffordd o amgylch y pentre gan Gyngor Sir Ddinbych, ond ni chafwyd dyddiadau penodol pa bryd bydd yr uned monitro cyflymder yn cael ei osod.
- Gosodwyd bin newydd ym Maes Clwyd yn dilyn difrod achoswyd gan gontractiwr amaethyddol, a gafodd fil am y gwaith.
- Cwblhawyd Ffurflen Archwiliad Blynyddol a bydd yn cael ei dychwelyd i Archwilio Cymru.
- Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned roi sylwadau ar ddau gais cynllunio anfonwyd gan yr Awdurdod Cynllunio:
    - Pum tŷ rotwnda ar dir y tu ôl i'r Kinmel Arms – analluog i'w gefnogi
    - Adeiladu sied amaethyddol yng Nghwm Hyfryd – analluog i'w gefnogi
- Adroddwyd bod Cyfarwyddwyr y Siop yn dal i aros am ganlyniad eu cais am arian ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru
- Cadarnhaodd CSDd y byddan nhw'n ymdrin â'r Canclwm Japan ganfuwyd yn Llangwyfan ar yr adeg briodol o'r flwyddyn.
- Mae gobaith y bydd staff Gweinyddu Procter Johnson yn cael eu hadleoli o Fflint i safle Arla yn y dyfodol agos, a'r staff cynhyrchu yn cychwyn yn chwarter cyntaf 2024 – os nad yn gynharach – yn dibynnu ar y gadwyn gyflenwi offer.
- Hoffai'r Cyngor Cymuned ddymuno gwellhad llwyr a buan i David Weyman.

Os oes gennych unrhyw fater i'w godi â'r heddlu, anfonwch e-bost at y plismon cymunedol David Jones: David.Jones4@northwales.police.uk, neu ffoniwch 101 a gadewch neges iddo.


**Blue Hand Mowers**

Repair and servicing of all garden machinery

Lawn mowers and lawn tractors
Chain saws
Hedge cutters
Strimmers
Disc cutters
Quad bikes
Leaf blowers
Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google
www.bluehandmowers.co.uk
enquiries@bluehandmowers.co.uk
☎0775 20 35 462


**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*